**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Rhagfyr 2016 yn Siambr Cyngor Sir y Fflint yn yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

Hefyd yn bresennol:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd Dros Dro); R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Roberts (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth Dros Dro); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); C Nott (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu Dros Dro); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau am y newidiadau dros dro yn nhîm y prif swyddogion a thîm y rheolwyr maes. Gofynnodd yr aelodau i'w dymuniadau gorau gael eu mynegi i Mrs Ruth Simmons.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEDI 2016

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Medi eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 MATERION BRYS

4.1 Gofynnodd y Cyng. P Pemberton a gâi ofyn cwestiwn, a chytunwyd i gymeradwyo'r cais hwn a'i drafod ar ddiwedd y cyfarfod.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Medi a Rhagfyr 2016 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd fod cynulleidfa dda yng ngwasanaeth carolau'r gwasanaethau brys, a diolchodd i'r trefnwyr a'r perfformwyr am ei gwneud yn noson ardderchog.

5.3 Cyfeiriodd y Cyng. P Shotton at seremonïau cyrhaeddiad y Ffenics, a da iawn oedd gweld criw o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn cael cyfle i gymryd rhan ac mai peth ysbrydoledig oedd gweld eu hymdrechion a'u cyflwyniad ar ddiwedd yr wythnos gyda thîm y Ffenics; ategodd yr Aelodau eu diolchiadau eto i'r Gwasanaeth am ddarparu rhaglen y Ffenics. Esboniodd y PST fod gwaith yn mynd yn ei flaen i ehangu'r gynulleidfa darged a wahoddir i gymryd rhan yn y cwrs.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-2020 A CHYLLIDEB 2017/18

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd Dros Dro yr adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i strategaeth ariannol tymor canolig yr Awdurdod ar gyfer 2017-2020 a hefyd i'r gyllideb ar gyfer 2017/18. Cyflwynwyd llythyr yn y cyfarfod gan Ysgrifennydd y Cabinet, Carl Sargeant.

6.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod dyletswydd ar yr Awdurdod i osod cyllideb fantoledig a bod gwaith wedi cael ei wneud gan weithgor y cynllun gwella i lunio amcanion gwella i ddiben ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys yr amcan ddiwygiedig yn ymwneud â chau'r bwlch tair blynedd a amcangyfrifir, sef £2.3 miliwn yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth.

6.3 Er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig ar gyfer 2017/18, byddai angen cael cynnydd o £1.7 miliwn yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, sef 5.3% yn fwy. Nodwyd mai'r rheswm dros y cynnydd hwn yw'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Awdurdod yn 2017/18.

6.4 O ran defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb, atgoffwyd yr aelodau mai peth doeth oedd cadw 3% o holl gyllideb yr Awdurdod ar ffurf cronfeydd cyffredinol. Roedd yr adroddiad yn nodi beth yw'r cronfeydd refeniw defnyddiadwy a ragwelir ar 31 Mawrth 2017; amcangyfrifir mai £2.16 miliwn fydd y cronfeydd a fydd ar gael i'w defnyddio'n gyffredinol ac yn ôl yr amcangyfrifon presennol defnyddir £0.537 miliwn i danategu cyllideb 2016/17. Felly, o ystyried y cronfeydd sydd ar gael byddai'n bosibl tanategu cyllideb 2018/19 yn rhannol, tra'n cadw rhywfaint o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y blynyddoedd i ddod, fel sy'n cael ei argymell.

6.5 Yn dilyn trafodaeth helaeth, gyda'r aelodau'n cael cyfle i ystyried nifer o faterion yn fanwl ac i fynegi pryderon am y pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Awdurdod Tân ac Achub yn ogystal â'u hawdurdodau cyfansoddol oherwydd y parhad yn y cwtogi ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r llywodraeth ganolog, gwnaethpwyd y cynnig a ganlyn gan y Dirprwy Gadeirydd, a chafodd ei eilio gan y Cyng. J Vaughan:

> 'cael cynnydd o 4% yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol yn 2017/18 a'r 1.3% arall, os oes ei angen, yn 2018/19'.

6.6 Cafwyd pleidlais am y cynnig hwn, a dyma'r canlyniad: o blaid – 17; 1 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

6.7 Byddai'r cynnig yn galluogi'r Awdurdod i osod cyllideb fantoledig drwy ddefnyddio rhywfaint o gronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2017/18, ond byddai hefyd yn golygu y byddai gan yr Awdurdod gronfeydd ar gael wrth gefn ar gyfer 2018/19 petai eu hangen.

6.8 Hefyd, awgrymodd y Clerc fod yr Awdurdod yn gofyn am gymorth dros dro gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant atodol; byddai hyn yn dangos i'r Gweinidogion gymaint o gyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu'r Awdurdod.

6.9 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2017/18;**

**(ii) cynyddu cyfraniadau'r awdurdodau lleol 4% yn 2017/18 a'r 1.3% arall, os oes ei angen, yn 2018/19;**

**(iii) defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2017/18 gan gadw 3% o leiaf yn y gronfa gyffredinol;**

**(iv) gwneud cais am grant atodol gan Lywodraeth Cymru;**

**(v) cytuno, os daw unrhyw arbedion i'r golwg cyn 15 Chwefror 2017, fod y pwerau dros addasu lefel y gyllideb am i lawr yn cael eu dirprwyo i'r Trysorydd Dros Dro mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.**

10 ALLDRO AMCANOL 2016/2017

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd Dros Dro yr adroddiad a oedd yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2016-17. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y gwir wariant hyd at ddiwedd mis Tachwedd ac yn darparu gwariant wedi'i amcangyfrif am y pedwar mis arall o'r flwyddyn ariannol.

10.2 Yn ôl yr arwyddion ar hyn o bryd, ni fydd dim tanwariant a bydd angen £536,617 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £760,417 o gronfeydd wrth gefn i osod cyllideb fantoledig.

10.3 Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb, sef 70%, yn ymwneud â chyflogau a chafodd yr aelodau wybod bod arwyddion o orwariant net ar gyflogau eleni. Bydd hyn wedi digwydd o ganlyniad i gynnal amryw o adolygiadau yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r newidiadau a roddwyd ar waith o'u herwydd, gan gynnwys:

- cyflogi diffoddwyr tân amser cyflawn ar gontractau'r system dyletswydd amser cyflawn gwledig, ynghyd â nifer o brentisiaid diffoddwyr tân, gan arwain at fwy o ofal tân ar gael ledled Gogledd Cymru a mwy o oriau o ofal na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol, a hynny o ganlyniad i salwch hirdymor ac argaeledd y system RDS

- cyflogi staff â sgiliau arbenigol ar gontractau cyfnod penodol i weithio ar brosiectau trawsffurfiadol allweddol, gan gynnwys y system gorchymyn a rheoli newydd

- trosglwyddo peth o'r gwaith cyllid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gynnig diswyddiadau i rai aelodau o'r staff cefnogol; bydd cost y taliadau dileu swyddi yn cael eu had-dalu drwy arbedion mewn costau staffio y flwyddyn nesaf.

10.4 Nodwyd hefyd y bu costau ychwanegol ar y gyllideb iechyd galwedigaethol oherwydd bod angen darparu profion sgrinio meddygol ychwanegol i ddiffoddwyr tân yn unol â gofyniad newydd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn profi am arwyddion o asbestosis.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.**

11 AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

11.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar aelodaeth gweithgor y cynllun gwella.

11.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cytuno bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau o weithgor y cynllun gwella;**

**(ii) nodi dyddiadau cyfarfodydd gweithgor y cynllun gwella fel a ganlyn:**
**Dydd Llun 6 Chwefror, 2pm;**
**Dydd Llun 6 Mawrth; 2pm.**

12 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16

12.1 Cyflwynodd y DBST adroddiad blynyddol bwrdd pensiwn lleol yr Awdurdod, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Sefydlwyd y bwrdd yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015.

12.2 Esboniodd y DBST mai rôl a chylch gwaith y bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei waith fel rheolwr y cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, drwy hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn cael mwy o dryloywder, mae angen cymeradwyo adroddiad y bwrdd pensiwn lleol i'w gyhoeddi.

12.3 Diolchodd y DBST i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am y gwaith sydd wedi golygu datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân a chael hyfforddiant rheolaidd. Diolchodd y Cadeirydd hefyd, ar ran yr Awdurdod, i aelodau'r bwrdd.

12.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y bwrdd pensiwn lleol 2015-16, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

13 DYDDIADAU'R CYFARFODYDD YN 2017

13.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau beth fydd dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2017.

13.2 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r cyfarfodydd fel a ganlyn:**

**Cyfarfodydd yr Awdurdod, 10.30am**
Dydd Llun 20 Mawrth 2017 – Wrecsam
Dydd Llun 19 Mehefin 2017 – Conwy
Dydd Llun 18 Medi 2017 – Gwynedd
Dydd Llun 18 Rhagfyr 2017 – Sir y Fflint

**Cyfarfodydd y Panel Gweithredol, 10am, Y Pencadlys**

Dydd Llun 13 Chwefror 2017
Dydd Llun 17 Gorffennaf 2017
Dydd Llun 23 Hydref 2017

**Pwyllgor Archwilio, 2pm, Y Pencadlys**
Dydd Llun 30 Ionawr 2017
Dydd Llun 5 Mehefin 2017
Dydd Llun 11 Medi 2017

14 DYLETSWYDD STATUDOL I YMATEB I LIFOGYDD AC ARGYFYNGAU ERAILL YN YMWNEUD Â DŴR

14.1 Cyflwynodd y PSTC Brandrick yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnig gan Lywodraeth Cymru i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau tân ac achub i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymateb drafft yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau.

14.2 Atgoffwyd yr aelodau nad oes dyletswydd statudol ar yr ATAau ar hyn o bryd i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill sy'n ymwneud â dŵr. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn cynnig defnyddio ei phŵer dan adran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ddiwygio Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 i gynnwys dyletswydd i wneud darpariaeth:

(a) ar gyfer achub pobl, neu eu hamddiffyn rhag niwed difrifol os oes llifogydd yn ei ardal, a
(b) ar gyfer achub pobl o ddŵr mewndirol yn ei ardal, lle mae'r sefyllfa'n debygol o achosi i un neu ragor o unigolion i farw, cael eu hanafu'n ddifrifol neu fynd yn ddifrifol wael.

14.3 Bu'r aelodau'n ystyried ymateb yr Awdurdod a'r gwahanol sylwadau a wnaed am brofiad blaenorol y Gwasanaeth o ddigwyddiadau'n ymwneud â llifogydd, yr adnoddau sydd eu hangen a'r costau sy'n gysylltiedig. Dywedodd y Cyng. Cowie fod y Gwasanaeth wedi gwneud gwaith eithriadol ar adeg y llifogydd yn Llanelwy yn 2012, ac ar ran trigolion Llanelwy dymunodd fod cofnod yn cael ei wneud o'i ddiolch i'r Gwasanaeth.

14.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, a chymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

15 WYLFA NEWYDD

15.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y goblygiadau i GTAGC o ran sicrhau adnoddau o ganlyniad uniongyrchol i gynlluniau i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa, yn ogystal â'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â hynny.

15.2 Caiff adroddiadau cyson eu cyflwyno i'r aelodau i ddweud sut mae GTAGC yn ymwneud yn barhaus â'r prosiect a'r holl ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â hwnnw. Cydnabuwyd na fu prosiect o'r maint hwn yng Ngogledd Cymru

erioed o'r blaen, ac y bydd yn effeithio ar bob gwasanaeth cyhoeddus ledled y rhanbarth.

15.3 Roedd yr aelodau'n cytuno mai doeth fyddai hi i'r Gwasanaeth sefydlu cysylltiadau â'r datblygwyr yn gynnar er mwyn tynnu sylw at unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod cynllunio ac yna er mwyn ymgymryd â gweithgareddau diogelwch tân i fusnesau a gwaith cynghori ac addysgu am ddiogelwch tân gyda'r gweithlu. Hefyd, bydd angen gwneud cryn dipyn o waith cynllunio ar gyfer argyfyngau gweithredol a hyfforddi. Oherwydd y materion hyn, teimlai'r aelodau bod yn rhaid i GTAGC sicrhau adnoddau cywir i'r prosiect ac felly roeddent o blaid secondio rheolwr grŵp i weithio'n llawn amser ar brosiect Wylfa.

15.4 O ran cyllideb yr Awdurdod, mynegodd yr aelodau bryder nad oedd unrhyw linell ar wahân yn y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn felly'r Awdurdod sy'n talu'r costau o ran y secondiad a gwaith cysylltiedig arall; awgrymwyd y dylid cyflwyno sylwadau i'r datblygwyr ynglŷn â darparu chyllid i sefydlu tîm llawn amser i weithio ar faterion yn ymwneud â diogelwch tân. Esboniodd y PST fod achos busnes wedi cael ei gyflwyno i Horizon i ofyn iddynt ad-dalu'r costau sy'n gysylltiedig â goblygiadau llwyth gwaith ychwanegol.

15.5 Hefyd, nododd yr aelodau y bydd gweithgor y cynllun gwella yn ystyried y goblygiadau posibl i wasanaethau, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod yn ei gyfarfodydd yn 2017.

Ar yr adeg hon, fe adawodd y Cyng. A Evans a'r Cyng J Vaughan y cyfarfod.

15.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi goblygiadau datblygiad Wylfa Newydd i GTAGC, a chefnogi'r ffordd yr eir ati i sicrhau adnoddau cywir i'r gwaith pwysig hwn;**

**(ii) penderfynu bod Gweithgor y Cynllun Gwella yn ystyried y goblygiadau hirdymor yn ei gyfarfodydd yn 2017.**

16 DATBLYGIADAU O RAN DARPARU ASEDAU CYDNERTHEDD CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD CYMRU

16.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y newidiadau o ran darparu asedau cydnerthedd cenedlaethol yng Ngogledd Cymru.

16.2 Cafodd asedau cydnerthedd cenedlaethol i ymdrin ag ymosodiadau terfysgol posibl yn y Deyrnas Unedig eu cyflwyno yn dilyn ymosodiadau terfysgol 9/11 yn yr Unol Daleithiau. Yn ôl y dadansoddiad cenedlaethol diweddar, mae'r risgiau a ganfyddir ledled y D.U. wedi newid, ac oherwydd bod natur ymosodiadau terfysgol yn newid mae angen llai o asedau i ddelio ag ymosodiadau posibl. Ar hyn o bryd, mae gan GTAGC ddwy uned ymateb i ddigwyddiadau (IRU), ond oherwydd canlyniad y dadansoddiad nid oes angen yr uned yng Nglannau Dyfrdwy mwyach a bydd yn cael ei thynnu oddi yno cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd nad oes unrhyw

oblygiadau ariannol i'r Gwasanaeth yn dilyn cael gwared ar y cerbyd hwn a bydd y cyfarpar sydd ar y cerbyd yn cael ei gadw mewn stoc ar gyfer gofynion hyfforddi yn y dyfodol.

16.3 **PENDERFYNWYD nodi**

**(i) canlyniad y dadansoddiad o'r rhagdybiaethau cynllunio newydd, a'r trafodaethau ledled y Deyrnas Unedig ynglŷn â lleoli unedau ymateb i ddigwyddiadau (IRUs);**

**(ii) y bydd yr uned ymateb i ddigwyddiadau sydd yng Nglannau Dyfrdwy yn cael ei thynnu o'r Gwasanaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.**

17 TRYSORYDD I'R AWDURDOD

17.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniad y broses recriwtio i swydd Trysorydd yr Awdurdod.

17.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r broses benodi;**

**(ii) cymeradwyo penodi Mr Ken Finch i swydd trysorydd gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2017, gyda'r penodiad yn amodol ar gytuno ar drefniadau cytundebol llwyddiannus;**

**(iii) y trefniadau cytundebol i gael eu cymeradwyo gan Gadeirydd yr Awdurdod.**

18 COFNODION CYFARFODYDD

18.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016

18.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

19 MATER YCHWANEOGL

19.1 Ar ddechrau'r cyfarfod, cafodd y Cyng. P Pemberton ganiatâd i ofyn cwestiwn. Dywedodd y Clerc bod y canlynol wedi'i nodi dan Reol Sefydlog 10, Cwestiynau:

"(2) Gall aelod o'r Awdurdod:
(a) os oes rhybudd ysgrifenedig wedi ei roi dri diwrnod llawn o flaen llaw i'r swyddog priodol, ofyn unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â materion yr awdurdod i gadeirydd unrhyw bwyllgor;
(b) yn ôl ewyllys y Cadeirydd, ofyn iddo/iddi neu i gadeirydd unrhyw bwyllgor unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â mater brys, heb i rybudd fod wedi ei roi, ar

yr amod bod copi o'r cwestiwn wedi ei roi i'r swyddog priodol cyn dechrau'r cyfarfod.
(3) Bydd pob cwestiwn yn cael ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth ond gall yr holwr(aig) ofyn cwestiwn atodol sy'n codi o'r ateb."

19.2 Dyma gwestiwn y Cyng. Pemberton 'A allai aelodau'r Awdurdod gael gweld faint, a pha rai, o'r gorsafoedd gwledig sydd 'i lawr' ar unrhyw adeg, a hynny'n rheolaidd neu pan fo angen. Y rheswm am hyn yw barnu drosom ni ein hunain, fel aelodau, a yw'r system yn gweithio fel y dylai ac i roi sicrwydd inni bod gennym ofal os bydd yr ail bwmp yn Wrecsam yn diflannu'.

19.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r PST ymateb. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'n anodd eithriadol darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, yn y Flwyddyn Newydd, fel rhan o'r broses o fonitro'r ffordd newydd o weithio o ran cael 20 pwmp ar gael yn ystod y dydd a 38 yn ystod y nos, bydd yr aelodau'n cael adroddiad rheolaidd i ddweud a yw'r system hon yn gweithio ai peidio. Cadarnhawyd mai'r sefyllfa hyd yma yw bod y Gwasanaeth yn cyrraedd y targed hwnnw bob un diwrnod.